## Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad

Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad byr i bresenoldeb ac ymddygiad.

Nod cyffredinol yr ymchwiliad yw:

> **Adolygu effeithiolrwydd polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol** yn y ddarpariaeth addysg i blant o oedran ysgol gorfodol.

Er mwyn cynorthwyo ei ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar unrhyw un neu'r holl bwyntiau a ganlyn:

- **Strategaethau a chymorth sy'n bodoli i fynd i'r afael ag ymddygiad a phresenoldeb er enghraifft:**
    - Hyfforddi a datblygu athrawon;
    - Y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion;
    - Y defnydd o waharddiadau o ysgolion (gan gynnwys gwaharddiadau parhaol / am gyfnod penodol / anghyfreithlon);
    - Gwasanaethau Lles Addysg ;
    - Materion cyffredinol eraill fel ymgysylltu â rhieni; gwasanaethau cymorth ymddygiad; y cysylltiad rhwng bwyd a fwyteir yn ystod diwrnod ysgol ac ymddygiad;
- **Cymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o ran ymddygiad a phresenoldeb;**
- **Trefniadau gweithio ar y cyd:**
    - Cydweithio rhwng asiantaethau perthnasol gan gynnwys, er enghraifft, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, timau troseddau ieuenctid, yr heddlu; mudiadau'r trydydd sector;
    - Cysylltiadau â mentrau perthnasol eraill fel Teuluoedd yn Gyntaf, Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion; mentrau'r trydydd sector.

Efallai y dymunwch gyflwyno unrhyw dystiolaeth arall y teimlwch sy'n uniongyrchol berthnasol i'r cylch gorchwyl uchod.

**Gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i PwyllgorPPI@cymru.gov.uk.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Gwener 18 Ionawr 2013**. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.